DEIGRYN HIRAETH

AR OL

Evan Lewis

MAB IEUAF THOMAS LEWIS, PENRHEOL COTTAGE,
BERTH, GER TREGARON, CEREDIGION,

Yr hwn a fu farw ar ei ffordd adref o Faes y Gad, yn y 29th Stationary Hospital, Turin, ar y 10fed o Ebrill, 1919,

YN 26 MLWYDD OED.

Mi blyga 'mhen, a deigryn ar fy ngrndd,
Mewn hiraeth dwys, yn wan a llwyd fy ngwedd ;
A chanaf gân a'i nodau oll yn brudd,
Wrth roi 'nghyfeillion goreu yn y bedd.

Fy nghefnder hoff ! 'rol cefnu ar y drin,
A'th wyneb annwyl tua thy dy dad,
Eto, 'roedd angau'n sefyll ar y ffin,
I'th rwystro 'nol i gôl dy annwyl wlad.

Yng ngwanwyn oes, ar ddechreu gyrfa wen,
Gofynnwyd iti wisgo'r gloew gledd ;
Dywedaist tithau'n ufudd iawn, "Amen.
Mi af i ryddid llwyr, neu ynteu fedd."

Y gorchwyl cyntaf wnaeth dy annwyl fam
Oedd siglo'th grud, cyn iddi groesi'r don ;
Ac O ! ni fynnai iti byth gael cam—
Mor dlws y cysget ar ei thyner fron.

Ond dros dy wlad y rhoist dy fywyd pur,
A thros dy wlad 'rwyt heddyw yn y bedd :
A phe bai'th farwol ran yng Ngwalia dir,
I'm hysbryd rhoddai hynny fwy o hedd.

Dihengaist pan yn cychwyn ar dy daith
I uno â byddinoedd arall wlad ;
Ond O ! o'th ol gadewaist ddyfnaf graith
A saif yn hir ar galon drom dy dad.

Os marw wnest mewn rhyw estronol dir,
Os cefaist gan dy hen elynion gam,
Gwladgarwch sydd yn llosgi ar y mur,
Nes gwneud dy fedd yn wyn yng ngoleu'r fflam.

Mae swn galaru yn yr awel oer,
Wrth suo-ganu heibio i ddrws dy dad ;
A deigryn sydd ar wyneb llwyd y lloer,
Yn adrodd hen hanesion erch y gâd.

Dymunwn pe bae'th fedd yng Nghymru dlos,
I mi gael plannu blodyn hardd ei liw
Ymysg y glaswellt gyda brig y nos,
I ddangos dy fod tithau eto'n fyw.

Mae hiraeth arnom am dy gwmni llon,
Dy ddifyr eiriau mwyn, a'th siriol wên ;
Y maent mor newydd ini'r funud hon,
Ni fedr amser byth eu gwneud yn hen.

Gadewaist hen fythynod Cymru wen,
Ac yn eu mysg hen fwthyn gwyn dy dad ;
Dy gartref heddyw sydd tudraw i'r llen,
Ymysg palasau teg dedwyddach gwlad.

Ffarwel yn awr ! Daw utgorn Duw ryw ddydd
I'th alw di o'th bell estronol fedd !
Cei godi'n iach ac yn dragwyddol rydd,
I rodio meysydd gwynion gwlad yr hedd.

T. H. LEWIS

Gwron aberthodd gariad,—brwd enaid
Llon Brydeiniwr gwiwfad ;
A'i ffun i'w hamddiffyniad,
Rhuddwaed glew dros ryddid gwlad.

Ar fyddin trais herfeiddiol—wynebai
Yn aberth gwirfoddol ;
Glewdeg wron gwladgarol,
Gwaedu wnaeth i'w gadw yn ol.

Ap Hefin.

HY. LLOYD (AP HEFIN), 11, SEYMOUR STREET, ABERDAR.